Gyfres Sgiliau

# Mynediad 1 - Lefel 2
# Sgiliau Bywyd a Sgiliau Gwaith

I'w addysgu o fis Medi 2027

## Canllaw Cyflym



Noder bod yr holl wybodaeth yn ein Canllawiau Cyflym yn amodol ar gymeradwyaeth Cymwysterau Cymru.

Yn Arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

# Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon uchel, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Chymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.



# Ynglŷn a'r Gyfres Sgiliau

Mae'r cymwysterau Sgiliau Bywyd a Gwaith yn grymuso dysgwyr drwy raglen unedol, hyblyg sy'n cefnogi twf personol, datblygiad ymarferol, ac yn eu gwneud yn barod am y dyfodol.

Yn seiliedig ar gyd-destunau byd go iawn, maen nhw'n cynnig rhaglenni dysgu diddorol, ymarferol sy'n meithrin hyder a sgiliau bywyd a gwaith hanfodol.

Bydd yr unedau sydd ar gael yn rhan o'r cymwysterau'n caniatáu i ddysgwyr barhau â'u dysgu o fewn y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad, yn ogystal ag elfennau gorfodol y Cwricwlwm i Gymru.

## Ar gyfer pwy mae'r cymwysterau hyn?

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u llunio ar gyfer dysgwyr a fydd yn ffynnu wrth ddilyn strwythur unedol, hyblyg sy'n cydnabod cynnydd ar bob cam.

Bydd yr unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith yn addas i'r rheiny sy'n cael eu hannog gan ddatblygiad cyson, ac sy'n chwilio am lai o bwysau ar asesu, yn ogystal â dysgwyr sydd â chryfderau amrywiol ar draws gwahanol feysydd dysgu.

Yn gynhwysol ac yn hygyrch, mae'r cymwysterau Sgiliau Bywyd a Gwaith yn cefnogi pob dysgwr o Lefel Mynediad 1 hyd at Lefel 2.

# Unedau Sgiliau Bywyd

| | |
|---|---|
| • Celf a Chrefft<br>• Cymorth Cyntaf Sylfaenol<br>• Iaith Arwyddion Prydain<br>• Cyfranogiad Cymunedol<br>• Democratiaeth Ar Waith<br>• Ffilm a Chyfryngau Digidol<br>• Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>• Dewisiadau Moesegol<br>• Cyfraith Bob Dydd<br>• Ymarfer Corff i Bawb<br>• Ffydd a Chred yn y Gymuned<br>• Llythrennedd Ariannol<br>• Cynllunio a Pharatoi Bwyd<br>• Ffordd Iach o Fyw<br>• Perthnasoedd Iach<br>• Rheoli a Chynnal a Chadw Cartref<br>• Iaith Ryngwladol – Cyfathrebu Gwybodaeth Bersonol – Llafar | • Iaith Ryngwladol – Cyfathrebu Gwybodaeth Bersonol – Ysgrifenedig<br>• Iaith Ryngwladol – Gweithgareddau Cymdeithasol – Llafar<br>• Iaith Ryngwladol – Gweithgareddau Cymdeithasol – Ysgrifenedig<br>• Gofalu am Eraill<br>• Iechyd a Llesiant Meddyliol<br>• Cerddoriaeth, Dawns a Drama<br>• Diogelwch Ar-lein<br>• Diogelwch Personol<br>• Garddio Ymarferol<br>• Gwyddoniaeth a Thechnoleg mewn Bywyd Bob Dydd<br>• Sgiliau yn yr Amgylchedd Naturiol<br>• Cynaliadwyedd Ar Waith<br>• Gwaith Tîm<br>• Deall yr Hunan ac Eraill<br>• Gwerthoedd ar gyfer Bywyd |

# Unedau Sgiliau Gwaith

| | |
|---|---|
| • Gwneud Cais am Swyddi<br>• Meithrin Meddylfryd Twf<br>• Cyllid Busnes<br>• Creadigrwydd Gyrfa<br>• Gwasanaeth Cwsmeriaid<br>• Menter<br>• Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>• Tegwch a Chynhwysiant yn y Gweithle<br>• Iaith Ryngwladol – Addysg a Chyflogaeth – Llafar<br>• Iaith Ryngwladol – Addysg a Chyflogaeth – Ysgrifenedig | • Technegau Cyfweld a Hyder<br>• Swyddi'r Dyfodol<br>• Goresgyn Rhwystrau<br>• Cynllunio Datblygiad Personol<br>• Hawliau a Chyfrifoldebau yn y Gweithle<br>• Datblygu Economaidd Cynaliadwy<br>• Deall y Farchnad Lafur sy'n Newid<br>• Defnyddio TG yn y Gweithle<br>• Llesiant a Gwaith<br>• Profiad Gwaith<br>• Gweithio yng Nghymru |

# Strwythur y Cymhwyster

Mae'r cymwysterau Sgiliau Bywyd a Gwaith wedi'u strwythuro i gefnogi dilyniant a hyblygrwydd wrth gyflwyno.

Mae pob cymhwyster yn cael ei lunio drwy gyfuno unedau sydd wedi'u rhestru yn yr adran uchod. O ran maint, mae'r unedau'n cynnwys naill ai 10 neu 20 o oriau dysgu dan arweiniad (ODA).

Mae maint cyffredinol y cymhwyster a ddyfernir i ddysgwr yn dibynnu ar gyfanswm yr ODA ar gyfer nifer yr unedau y maen nhw wedi'u cwblhau.

- Dyfarniad – 60 ODA
- Tystysgrif – 120 ODA
- Diploma – 240 ODA

# Crynodeb o'r Asesu

| **Ffocws** | **Maint y Cymhwyster** | **Tystiolaeth** | **Lefelau Cyrhaeddiad** |
|---|---|---|---|
| Asesu Di-arholiad.<br><br>Asesu Mewnol a Sicrhau Ansawdd Allanol | Dyfarniad – 60 ODA<br><br>Tystysgrif – 120 ODA<br><br>Diploma – 240 ODA | Seiliedig ar Bortffolio | Lefel Mynediad<br><br>Lefel 1<br><br>Lefel 2 |

DRAFT

Mae'r Gyfres Sgiliau yn gymhwyster newydd gwych sy'n cynnig amrywiaeth eang o unedau cyffrous sy'n targedu'n uniongyrchol y sgiliau hynny y mae angen i ddysgwyr eu datblygu ar gyfer eu dyfodol.

Os ydych chi'n cynnig y Dystysgrif Her Sgiliau ar hyn o bryd, bydd y Gyfres Sgiliau yn dod yn lle'r cymhwyster hwn yn naturiol, a bydd ein Tîm Cefnogi Rhanbarthol ar gael i roi cyngor i chi a'ch cefnogi.



**Emma Vincent**

Arweinydd Tîm
Cefnogi Rhanbarthol

# Oes angen mwy o gefnogaeth arnoch chi?

Mae ein Cynrychiolydd Rhanbarthol Sophie Dobbs ar gael i'ch cefnogi fel canolfan i gyflwyno'r cymwysterau newydd cyffrous hyn:

**Rwy'n gweithio'n agos gydag ysgolion a cholegau ledled Cymru, yn eu helpu i ddeall y cymwysterau Ton 3 newydd sydd i ddod fel rhan o ddiwygio Cymwysterau Cenedlaethol 14–16 ym mis Medi 2027.**

**Rwyf yma i gefnogi canolfannau ar bob cam o'r daith, o'r sgyrsiau cynnar a chynllunio, hyd at gyflwyno'r cymwysterau.**

**Cyn dechrau yn CBAC, treuliais 17 mlynedd mewn addysg uwchradd. Mae cael y profiad hwnnw, a dealltwriaeth glir o'r heriau ymarferol y mae uwch arweinwyr yn eu hwynebu o ran staffio, amserlennu, adnoddau a chyllidebau, yn golygu fy mod mewn sefyllfa dda i gefnogi canolfannau yn strategol ac yn ymarferol drwy drawsnewidiad Ton 3**



Cysylltwch â Sophie:

ton3@cbac.co.uk

Ton 3

**Mae'r don olaf o Gymwysterau Cenedlaethol 14-16 ar gyfer Gymru ar y ffordd, a bydd y cymwysterau'n barod i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2027.**

Rydyn ni'n adeiladu ar bopeth a ddysgwyd wrth gyd-greu ein cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru, gan gydweithio â dros 100 o ganolfannau a 60+ o gyflogwyr, i ddatblygu amrywiaeth gynhwysol, eang a chytbwys o gymwysterau sy'n galluogi ffyrdd gwahanol o ddysgu a datblygu sgiliau.

Dewch i ddarganfod amrywiaeth o gymwysterau newydd cynhwysol gyda CBAC, bwrdd arholi mwyaf sefydledig Cymru:

- **Project Personol**
- **Y Gyfres Sgiliau (Sgiliau Bywyd a Sgiliau Gwaith)**
- **Sylfaen (Cyffredinol ac yn Gysylltiedig â Gwaith)**
- **TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd)**

## Dysgu mwy: www.cbac.co.uk/ton3



Yn Arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.